DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Canolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill

Dyddiad Arolygu: 17 Tachwedd 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Chwefror 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-8425-2
© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 4

3. Crynodeb ........ 5

4. Canfyddiadau ........ 7

   Ansawdd Profiad y Claf ........ 7

   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 10

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15

5. Y Camau Nesaf ........ 16

6. Methodoleg ........ 17

   Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ganolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn Mayhill Lodge, Mayhill, Trefynwy, NP25 3LX ar 17 Tachwedd 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Canolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig ac wedi ei lleoli yn Nhrefynwy.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, un therapydd, pedair nyrs ddeintyddol ac un rheolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion a'i bod yn uchel ei pharch ymhlith ei chleifion.

Dyma a ganfuom fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd bodlonrwydd cleifion yn uchel
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi ac yn deall eu cyfrifoldebau
- Roedd offer digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Mae trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio pelydr-X yn effeithiol
- Caiff offerynnau deintyddol eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Mae gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu yn ddiogel.

Dyma'r hyn yr ydym yn argymell y gallai'r practis ei wella:

- Dylid arddangos rhagor o wybodaeth hybu iechyd yn y practis a diweddaru'r wybodaeth ar wefan y practis
- Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1] (WHTM 01-05)
- Proses argyfwng meddygol cyfatebol i gael ei chadw gyda chyffuriau
- Rheolau ymbelydredd lleol ac arwyddion radioleg i gael eu harddangos
- Dylid cadw cofnod o'r archwiliadau cywasgydd dyddiol
- Nodiadau cleifion

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

- Trefniadau ar gyfer archwiliadau sicrhau ansawdd ac adolygu cymheiriaid.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Canfuom dystiolaeth bod y practis wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd yr adborth a dderbyniwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer gofyn am adborth gan gleifion yn rheolaidd fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos rhagor o wybodaeth hybu iechyd er mwyn helpu i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Gwnaethom argymell bod y practis yn egluro gwybodaeth sydd ar gael am eu trefniadau cysylltu tu allan i oriau a chynnal gwybodaeth gyfredol ar eu gwefan.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC ymhlith y cleifion i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 21 i ni. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> *"Rwyf wrth fy modd gyda'r practis hwn, bob amser yn gyfeillgar ac yn broffesiynol"*
>
> *"Mae'n holl staff yn barod iawn eu cymwynas. Mae'r deintydd yn eglur iawn o'r ymgynghoriad cychwynnol hyd at gwblhau triniaeth"*
>
> *"Practis ardderchog, cyfleusterau o'r radd flaenaf, staff gwybodus a chyfeillgar"*
>
> *"Mae popeth yn foddhaol dros ben ac mae'r staff yn hyfryd"*

<u>Gofal ag urddas</u>

Darparwyd gofal i'r cleifion gydag urddas a pharch. Roedd lle ar gael i'r staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat, i ffwrdd oddi wrth bobl eraill, os oedd angen. Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn ffordd gyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gwbl gadarnhaol wrth i'r cleifion ddweud eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn yn y practis a'u bod yn teimlo bod y staff yn eu croesawu.

<u>Gofal amserol</u>

Mae'r practis yn ceisio sicrhau y darperir gofal deintyddol yn brydlon. Roedd system apwyntiadau hyblyg fel y gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar gyfer achosion brys. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i holiaduron AGIC nad oeddent yn dioddef unrhyw oedi diangen cyn cael eu gweld gan y deintyddion ac roedd y mwyafrif yn gwybod sut i gael mynediad ar ofal deintyddol y tu allan i oriau. Fodd bynnag, gwnaethom argymell bod y practis yn egluro'r trefniadau rhif ffôn cyswllt brys. Mae angen i'r practis ddiweddaru'r manylion sydd ar gael y tu allan i'r ddeintyddfa, i gynnwys oriau agor ac enwau a chymwysterau cyfredol yr holl ddeintyddion. Mae angen i'r practis gynnal ei wefan hefyd, er mwyn sicrhau bod y manylion yn gyfredol, gan gynnwys rhestrau prisiau, manylion cwynion a threfniadau cyswllt brys.

**Yr hyn mae angen ei wella**

***Dylai'r practis gadw gwybodaeth am wasanaethau'n gyfredol; yn enwedig gwybodaeth a arddangosir y tu allan i'r practis ac ar ei wefan, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

<u>Cadw'n iach</u>

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiaduron AGIC wrthym eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd samplau am ddim o bast dannedd ac afalau ar gael i'r cleifion helpu eu hunain iddynt. Roedd pecyn croeso ar gyfer cleifion a rhywfaint o wybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid trefnu bod rhagor o daflenni hybu iechyd ar gael am ganser y geg a rhoi'r gorau i ysmygu. Mae gwybodaeth hybu iechyd o gymorth wrth gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid trefnu bod rhagor o wybodaeth/taflenni hybu iechyd ar gael.***

<u>Gofal unigol</u>

Roedd proses holiadur cleifion ar waith fel ffordd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd canlyniadau'r arolygon yn cael eu hystyried a chamau'n cael eu cymryd i ymateb i unrhyw welliannau a awgrymir. Caiff cymeradwyaeth cleifion ei chyhoeddi ar wefan y practis. Gwnaethom gynghori y gellid darparu crynodebau o arolygon cleifion i gleifion, gan ddangos y camau a'r gwersi a ddeilliodd ohonynt, i gwblhau'r prosesau sydd eisoes ar waith.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith fel y gallai cleifion godi pryderon (cwynion) ac roedd hon ar gael yn amlwg yn y man aros. Roedd y weithdrefn yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[2]. Roedd llyfr pryderon yn cael ei gynnal ac fe'n hysbyswyd nad oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion hyd yn hyn. Roedd blwch awgrymiadau ar gael yn y man aros. Gwelsom fod rhestr brisiau ar gyfer triniaeth ar gael, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Mae'r practis yn darparu mynediad cadair olwyn i'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr daear.

[2] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth y darperir gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos rheolau ymbelydredd lleol ym mhob man lle mae radioleg yn cael ei defnyddio a bod arwyddion radioleg yn cael eu harddangos.**

**Roeddem yn fodlon â'r trefniadau sydd ar waith i ddiogelu cleifion a staff rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Canfuom fod angen cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â chanllawiau WHTM 10-05. Roedd angen cadw cofnod o'r archwiliadau cywasgydd dyddiol sy'n cael eu cynnal.**

**Gwnaethom edrych ar gofnodion cleifion a chanfuom fod angen gwelliannau. Gwnaethom argymell bod y deintyddion yn cynnal archwiliad cofnodion clinigol gyda'i gilydd i rannu gwersi ac arfer gorau.**

### <u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff a chleifion. Roedd y practis yn amlwg wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd diffoddwyr tân wedi'u lleoli'n strategol ac wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynhwysyddion offer miniog wedi eu storio'n ddiogel.

Roedd asesiadau risg ar Reoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)[3] ar gael a gwelsom fod dalenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd a bod asesiadau risg wedi cael eu cwblhau a oedd yn benodol i'r gweithle a'r amgylchedd.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau'r defnydd diogel o ddyfeisiau trydanol bach yn y practis a bod tystysgrifau diogelwch nwy ar gael hefyd. Roedd y dystysgrif drydanol bum mlynedd ar gyfer y safle yn gyfredol.

---

[3]COSHH yw'r gyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr reoli sylweddau peryglus i iechyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch drwy'r ddolen ganlynol http://www.hse.gov.uk/coshh/index.htm

Canfuom nad oedd cofnod yn cael ei gadw o'r archwiliadau cywasgydd dyddiol a oedd yn cael eu cynnal.

**Yr hyn mae angen ei wella**

***Mae'n rhaid cadw cofnod o'r archwiliadau cywasgydd dyddiol sy'n cael eu cynnal.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i ddiogelu staff a chleifion rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal yn y practis deintyddol hwn. Roedd hyn oherwydd i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol â sinc golchi dwylo bwrpasol
- Offer diogelwch personol fel menig untro, ffedogau ac amddiffynwyr llygaid ar gael ac yn cael eu defnyddio
- Roedd yr offer a ddefnyddir ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau yn amlwg mewn cyflwr da
- Roedd llyfrau log ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cynnal, gan gynnwys profion dyddiol. Roedd cofnodion ar gyfer pob cylch sterileiddio yn cael eu cadw'n electronig ynghyd â chopi wrth gefn
- Roedd offerynnau wedi eu storio a'u dyddio'n briodol.

Canfuom fod yr holl nyrsys deintyddol wedi cwblhau hyfforddiant dadheintio, fel yr argymhellir gan WHTM 01-05. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth bod angen cwblhau archwiliadau rheoli heintiau, fel yr argymhellir gan y canllawiau WHTM 01-05 penodol i Gymru.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05.***

*Cyffuriau brys ac offer dadebru*

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu storio'n ddiogel ac ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng (ymgwympiad) claf. Gwelsom gofnodion i ddangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywio cardio-pwlmonaidd.

Roedd y cyffuriau brys yn drefnus. Gwnaethom gynghori y dylid cadw siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol ochr yn ochr â'r cyffuriau.

Roedd gan y practis nifer ddigonol o weithwyr cymorth cyntaf dynodedig yn y tîm a oedd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Canfuom fod y broses ar gyfer archwilio a chofnodi stoc cyffuriau yn briodol.

*Diogelu*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hybu ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ar waith. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Fel mater o arfer da, roedd yr holl ddeintyddion a staff nyrsio wedi derbyn archwiliad diogelu priodol.

*Offer radiograffig*

Roedd ffeil diogelwch ymbelydredd ar waith a dogfennau ar gael i ddangos bod peiriannau pelydr-X wedi cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd deintyddion a nyrsys deintyddol sy'n cynnal radiograffau oll wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol. Mae hyn yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Canfuom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograff at ddibenion sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai cynlluniau man rheoli radiograffig gael eu harddangos ar gyfer pob ystafell driniaeth a bod arwyddion radioleg yn cael eu harddangos.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai'r practis arddangos rheolau ymbelydredd lleol ym mhob man y mae radioleg yn cael ei defnyddio a dylid arddangos arwyddion radioleg.***

Nododd y prif ddeintydd ei fod ef fel yr unig weithredwr yn defnyddio laser yn y practis yn anaml. Argymhellwyd bod y prif ddeintydd yn cysylltu â thîm cofrestru AGIC i ofyn am ragor o gyngor ar ddefnyddio a chofrestru'r laser QW 3.5w.

***Yr hyn mae angen ei wella***

[4] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol - http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

***Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd gysylltu â thîm cofrestru AGIC i ofyn am ragor o gyngor ar ddefnyddio a chofrestriad posibl y laser QW 3.5w.***

## Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl fach o gofnodion cleifion ar draws pob un o'r deintyddion a therapyddion yn y practis. Canfuom yn gyffredinol fod y broses cadw cofnodion yn briodol, ond nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid oedd system ar waith i ddynodi bod deintyddion wedi gwirio hanesion meddygol a/neu fod hanesion meddygol wedi'u cydlofnodi gan y deintydd
- Nid oedd cyngor rhoi'r gorau i ysmygu a ddarparwyd i gleifion wedi ei gofnodi mewn cofnodion cleifion
- Nid oedd sgrinio canser y geg wedi ei gofnodi bob amser a chynghorir y dylid cofnodi hyn
- Nid oedd cyfiawnhad dros gynnal radiograffau yn cael ei gofnodi
- Dylai siartiau poced chwe phwynt gael eu cofnodi'n briodol fel yr argymhellir yng nghanllawiau Cymdeithas Periodontoleg Prydain[5].

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylid gwneud gwelliannau i nodiadau cleifion fel y dynodir yn yr adroddiad uchod.***

Gofal effeithiol

Mae'r cleifion yn elwa o bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai prosesau arolygu mewnol ac archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau a radiograffau. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r prosesau sicrhau ac archwilio ansawdd a ddilynir yn y practis gael eu datblygu ymhellach, yn unol â dull Deintyddiaeth

[5] http://www.bsperio.org.uk/publications/good_practitioners_guide_2016.pdf?v=3

Matrics Aeddfedrwydd Deoniaeth Cymru[6]. Hysbyswyd y practis bod dysgu o adolygiadau ac archwiliadau cymheiriaid yn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.

***Yr hyn mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu ei drefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd.***

[6] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis. Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Gwelsom dîm staff wrth eu gwaith a oedd yn ymddangos yn hapus ac yn gymwys wrth gyflawni eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff y siaradom â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis. Gwelsom fod staff yn gallu cael mynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Fe'n hysbyswyd bod arfarniadau staff wedi cael eu cynnal. Mae arfarniadau blynyddol o staff yn bwysig er mwyn helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi.

Fe'n hysbyswyd bod cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod cofnodion a chamau gweithredu yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau deintyddiaeth breifat, roedd y deintyddion sy'n darparu triniaeth wedi eu cofrestru gydag AGIC ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis. Gwelsom gofnodion yn ymwneud â statws imiwneiddiad Hepatitis B ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r bwrdd iechyd roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a’i gyhoeddi ar wefan AGIC a’i werthuso yn rhan o’r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[7] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[8]. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[7] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made

[8] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol ac Arbenigol Mayhill

## Dyddiad yr Arolygiad: 17 Tachwedd 2016

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Mae Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 8 | Dylai'r practis gadw gwybodaeth am wasanaethau'n gyfredol; yn enwedig gwybodaeth a arddangosir y tu allan i'r practis ac ar ei wefan, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar hysbysebu* | Cwblhawyd | Helen Guppy | Wedi'i gwblhau |
| 8 | Dylid trefnu bod rhagor o wybodaeth/taflenni hybu iechyd ar gael. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Ar y gweill | Helen Guppy | 28 Chwefror 2017 |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Mae Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2008<br>14 (1) (a)<br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (1.4.2)*<br>*Delivering better oral health* (fersiwn 3) | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid cadw cofnod o'r archwiliadau cywasgydd dyddiol sy'n cael eu cynnal. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989*<br>*Rheoliadau Diogelwch* | Cedwir llyfr log wrth y cywasgydd bellach | Sam Lounds | Wedi'i gwblhau |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Mae Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Systemau Pwysedd 2000* | | | |
| 11 | Dylid cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol â WHTM 01-05 | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (6)<br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05)* | Cynhaliwyd archwiliad (WHTM) newydd | Sam Lounds | Wedi'i gwblhau |
| 12 | Dylai'r practis arddangos rheolau ymbelydredd lleol ym mhob man y mae radioleg yn cael ei defnyddio a dylid arddangos arwyddion radioleg | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Rheolau lleol wedi'u harddangos ym mhob man | David<br>Guppy | Wedi'i gwblhau |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Mae Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Mae'n rhaid i'r prif ddeintydd gysylltu â thîm cofrestru AGIC i ofyn am ragor o gyngor ar ddefnyddio a chofrestriad posibl y laser QW 3.5w. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>8 (c) a 10 | Datgomisiynwyd, gweler nodiadau yn y ffurflen werthuso | David<br>Guppy | Ar unwaith |
| 13 | Dylid gwneud gwelliannau i nodiadau cleifion fel y dynodir yn yr adroddiad uchod. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol Safon 4* | Derbyniwyd cyngor a bydd yn cael ei ddilyn | David<br>Guppy | Ar unwaith |
| 14 | Dylai'r practis ddatblygu ei drefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu cymheiriaid rheolaidd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (2)<br>*Matrics Aeddfedrwydd* | Ar y gweill ac yn ymchwilio ar hyn o bryd | David<br>Guppy | 31 Mai 2017 |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Mae Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Deintyddiaeth* | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras): .............David Guppy...........................................**

**Teitl: …………..Deintydd a pherchennog y practis ................**